ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Pwyllgorau Rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion

Adroddiadau Cylch Gwaith Estyn

Ymateb Llywodraeth Cymru

| **Teitl yr adroddiad:**<br><br>Pwyllgorau Rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion |
|---|
| **Manylion yr adroddiad**<br><br>Comisiynwyd yr adolygiad gan Gyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru er mwyn gwerthuso pa mor dda y mae pwyllgorau rheoli mewn unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau. Yn benodol, ystyriwyd pa mor dda y mae pwyllgorau rheoli wedi ymateb i'r 'Llawlyfr ar gyfer Pwyllgorau Rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion[1]' gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gwelliant. |
| **Crynodeb o'r prif ganfyddiadau**<br><br>Canfu'r adolygiad fod tua hanner y pwyllgorau rheoli yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n dda a bod pwyllgorau rheoli yn effeithiol pan fydd rolau a chyfrifoldebau aelodau'r pwyllgor am wella eu UCD yn glir. Yn yr achosion gorau, gwna aelodau ddefnydd da o'r 'Llawlyfr ar gyfer Pwyllgorau Rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion'. Canfu fod pwyllgor rheoli UCD yn gweithio orau mewn partneriaeth â'i awdurdod lleol a phan fyddant yn rhannu gweledigaeth gyffredin ar gyfer yr UCD. Mae'r ddealltwriaeth hon ar y cyd fel arfer yn arwain at berthnasoedd gwaith cryf ac at ddisgwyliadau clir ar gyfer deilliannau dysgwyr.<br><br>Canfu'r adolygiad nad yw lleiafrif o bwyllgorau rheoli yn ymwybodol o'r Llawlyfr neu nid ydynt yn ei ddefnyddio yn ddigon da. Canfu Estyn fod y diffyg ymwybyddiaeth o'r cyhoeddiad defnyddiol hwn yn cyfrannu at arfer anghyson ar draws pwyllgorau rheoli UCDau.<br><br>Pan fydd pwyllgorau rheoli yn meddu ar ddealltwriaeth fanwl o'u UCD, canfu'r adolygiad y gall aelodau herio a chefnogi arweinyddiaeth yr UCD yn dda. Mae aelodau'r pwyllgorau rheoli llwyddiannus yn adlewyrchu anghenion eu UCD, yn ogystal â bodloni gofynion rheoleiddio.<br><br>Mae llawer o UCDau yn ei chael yn anodd recriwtio amrywiaeth eang o aelodau i'w pwyllgorau rheoli. Roedd yr adolygiad yn teimlo bod hyn yn effeithio ar ehangder y wybodaeth a'r profiad sydd ar gael i'r pwyllgor ac yn ei gwneud yn anodd dirprwyo cyfrifoldebau penodol. Mae sicrhau cynrychiolaeth rhieni yn benodol yn un o'r problemau mwy heriol wrth recriwtio.<br><br>Mae rheoliadau yn amlinellu cyfrifoldeb ar y cyd i'r awdurdod lleol a'r pwyllgor |

[1] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-11/llawlyfr-ar-gyfer-pwyllgorau-rheoli-unedau-cyfeirio-disgyblion.pdf

| |
|---|
| rheoli ddatblygu cwricwlwm ar gyfer y disgyblion. Mae UCDau a phwyllgorau rheoli llwyddiannus yn gweithio'n dda gyda'r awdurdod lleol ar yr agwedd hon. Pan fydd yr awdurdod lleol yn gweithio'n strategol gyda phwyllgor rheoli'r UCD, mae hyn yn cynorthwyo'r UCD i fod yn fwy ymatebol i anghenion ei dysgwyr. Mae'r arfer fwyaf effeithiol wedi'i seilio ar berthynas o gydweithio.<br><br>Yr awdurdod lleol sydd â chyfrifoldeb am hyfforddiant a datblygiad aelodau'r pwyllgor rheoli. Canfu'r adolygiad fod yr awdurdod lleol a'r consortiwm rhanbarthol, yn y pwyllgorau rheoli mwyaf effeithiol, yn gweithio'n agos gydag aelodau'r pwyllgor i ddarparu cyfleoedd hyfforddi perthnasol, cyson a gwerth chweil, ond bod yr arfer hon yn digwydd mewn ychydig o UCDau yn unig. Mae'r adroddiad yn nodi bod angen hyfforddiant a chymorth priodol er mwyn rhoi'r newidiadau a gynigir yng Nghod Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru ar waith yn llwyddiannus. |
| **Dylai Llywodraeth Cymru:**<br><br>**A5 Godi ymwybyddiaeth ymhlith yr holl bwyllgorau rheoli am y Llawlyfr ar gyfer Pwyllgorau Rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion**<br><br>**Derbyn** – Fis Gorffennaf 2019, anfonwyd neges at yr holl athrawon sy'n gyfrifol am UCDau yn eu hatgoffa bod y llawlyfr wedi'i gyhoeddi. I godi ymwybyddiaeth o'r llawlyfr, byddwn yn cyhoeddi erthygl yng nghylchlythyr Dysg.<br><br>Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r adolygiad, o ran defnyddioldeb y llawlyfr i gefnogi gweithrediad effeithiol pwyllgorau rheoli, byddwn ni'n cysylltu'n uniongyrchol â chadeiryddion pob pwyllgor rheoli i annog defnydd o'r llawlyfr. |
| **Mae'r adroddiad yn nodi'r argymhellion canlynol ar gyfer ysgolion, cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol:**<br><br>**Dylai pwyllgorau rheoli:**<br>A1 Ddefnyddio'r Llawlyfr ar gyfer Pwyllgorau Rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion i wella eu gwaith<br>A2 Gweithio'n agos mewn partneriaeth â'u hawdurdod lleol, eu consortiwm rhanbarthol a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer eu UCD<br><br>**Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:**<br>A3 Ddarparu rhaglen flynyddol o gyfleoedd hyfforddiant a datblygiad ar gyfer aelodau o bwyllgorau rheoli UCDau<br><br>A4 Sicrhau bod swyddogion awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn deall rôl a swyddogaeth eu UCDau yn llawn er mwyn gwella eu cydweithio â phwyllgorau rheoli<br><br>Bydd yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr yn y Gyfarwyddiaeth Addysg yn |

| |
|---|
| ysgrifennu at awdurdodau lleol i dynnu sylw at yr argymhellion y mae’r adroddiad hwn yn eu gwneud ar eu cyfer nhw a phwyllgorau rheoli. |
| **Manylion cyhoeddi**<br><br>Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 13 Chwefror ac mae ef ar gael ar wefan Estyn: https://www.estyn.llyw.cymru/ |

Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

ISBN digidol 978-1-80038-161-2

© Hawlfraint y Goron Chwefror 2020
WG40019